



**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas /  
MS Teams**

**Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

M C Child  
A S Lewis  
A H Stevens

**Y Cyngorydd(wyr)**

R Francis-Davies  
A Pugh

**Y Cyngorydd(wyr)**

D H Hopkins  
R V Smith

**Swyddog(ion)**

Huw Evans  
Tracey Meredith  
Phil Roberts  
Ben Smith

Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd  
Prif Swyddog Cyfreithiol  
Prif Weithredwr  
Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151

**Hefyd yn bresennol**

Y Cyngorydd(wyr):

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wyr): E J King a/ac M Thomas

---

**82. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

- 1) Datganodd y Cyngorydd L S Gibbard gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 87 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdodau Lleol" a gadawsant y cyfarfod cyn ei ystyried.
- 2) Datganodd y Cyngorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 87 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei fod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.
- 3) Datganodd y Cyngorwyr M C Child a A H Stevens gysylltiad personol â Chofnod 90 "Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr 2021/22 – Cynnig Cyllid CNC".
- 4) Datganodd y Cyngorwyr L S Gibbard a R V Smith gysylltiad personol â Chofnod 95 "Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Caffael ac ailddatblygu

prydles FPR7 - 279 Stryd Rhydychen / 25-27 Princess Way” a Chofnod 96  
“Caffael ac ailddatblygu prydles FPR7 - 279 Stryd Rhydychen / 25-27  
Princess Way”.

**83. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

- 1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021.

**84. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**85. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**86. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**87. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALI) ar gyff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

- 1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

1.	Ysgol Gynradd Blaenymaes	Don Paterson
2.	Ysgol Gynradd Cadle	Nigel Richards Mark Davies
3.	Ysgol Gynradd Gatholig Illtud Sant	Judie Michael
4.	Ysgol Gynradd Talycopa	Lee Wheatley
5.	Ysgol Gynradd Waunarllwydd	Rory File
6.	Ysgol Tre-gŵyr	Tim Williams Melissa Gammon

**88. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 2 2021/22.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2021-2022.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

- 1) Caiff canlyniadau perfformiad Chwarter 2 2021/22 eu cymeradwyo a'u defnyddio i lywio penderfyniadau gweithredol ar ddyrannu adnoddau a, lle y bo'n berthnasol, dylid cymeradwyo camau unioni i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**89. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2il 2021/22.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

- 2) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau, gan gynnwys yr ansicrwydd materol, a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain
- 3) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir ym mharagraff 2.7 o'r adroddiad a'r defnydd o'r gronfa wrth gefn fel a nodir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad yn amodol ar unrhyw gyngor pellach i'r Swyddog Adran 151 yn ystod y flwyddyn.
- 4) Atgyfnerthir yr angen i bob Cyfarwyddwr barhau i leihau gorwario ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod mai dim ond drwy ddibynnu'n drwm ar ad-daliad tebygol (sydd ymhell o fod yn sicr), cyllidebau wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a ddelir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru y mae'r gyllideb gyffredinol yn cael ei chydbwyso ar hyn o bryd, a hefyd i gydnabod bod y gorwariant bron yn gyfan gwbl oherwydd pwysau COVID parhaus a ragwelir yn fras.
- 5) Dylid ystyried yr opsiynau ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad mewn perthynas â thanwariant posib ar gyfer y flwyddyn gyda chamau terfynol i'w cadarnhau yn adroddiad y trydydd chwarter ym mis Chwefror 2022.

**90. Cynllun Rheoli AoHNE Gwyr 2021/22 - cynnig cyllid CNC.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ôl-weithredol i dderbyn cynnig o gyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

- 1) Dylid nodi'r amserlenni byr ar gyfer cyflwyno ceisiadau fel yr amlinellir ym mharagraff 2 o'r adroddiad, a derbyn y cynnig o gyllid (cyfanswm o £108,250) gan CNC, er mwyn gallu cymeradwyo Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr.

**91. Diweddariad ar Gyd-bwyllgorau Corfforaethol Rhanbarthol De-orllewin Cymru.**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a gofynnodd am gymeradwyaeth lle bo hynny'n berthnasol ar gyfer cyfranogiad Cyngor Dinas a Sir Abertawe ("y cyngor).

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

- 1) Nodi'r ffrydiau gwaith presennol sy'n gysylltiedig â Chyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Swyddogion i hwyluso gwaith o'r fath.
- 2) Dylid nodi'r dyraniad o gyfrifoldebau gweithredol a'r cynigion a nodir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad.
- 3) Dylid nodi'r cynnig o ran sut y bydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru a'r gwahanol is-bwyllgorau'n cael eu sefydlu.
- 4) Dylid nodi'r cynigion ar gyfer y Cynghorwyr y cyfeirir atynt felly ym mharagraffau 4.4 a 4.5 o'r adroddiad i eistedd ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a'r is-bwyllgorau a enwyd.
- 5) Awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor i gytuno ar unrhyw ddogfennau sy'n angenrheidiol i weithredu gofynion yr adroddiad hwn.

## **92. Adfywio Sgwâr y Castell FPR7.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu Cynllun Sgwâr y Castell at y Rhaglen Gyfalaf ac adrodd yn ôl ar ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

### **Penderfynwyd ar y canlynol:**

- 1) Ychwanegir cynllun Adfywio Sgwâr y Castell at y Rhaglen Gyfalaf yn unol â Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 i symud ymlaen i gyflwyno yn ystod 2022/23.
- 2) Yn amodol ar gadarnhad ffurfiol o gynnig grant, bydd y cyngor yn derbyn y cynnig o gyllid grant ac yn lleihau'r alwad yn erbyn y cyfalaf wrth gefn.
- 3) Caiff incwm refeniw o'r cynllun ei neilltuo ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus ac ar gyfer cronfa ad-dalu ar gyfer Sgwâr y Castell.

## **93. Gwahardd y cyhoedd: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**94. Adfywio Sgwâr y Castell FPR7.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu Cynllun Sgwâr y Castell at y Rhaglen Gyfalaf ac adrodd yn ôl ar ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**95. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Caffael ac ailddatblygu prydles FPR7 - 279 Stryd Rhydychen/25-27 Princess Way. (Llafar)**

Cyflwynodd y Cynghorydd P M Black yr Adborth Craffu Cyn Penderfynu.

**96. Caffael ac ailddatblygu prydles FPR7 - 279 Stryd Rhydychen/25-27 Princess Way.\***

**Gweithdrefn Galw i Mewn - yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:** Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth ac Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.49 am

**Cadeirydd**

<b>Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol</b>	
Dyddiad cyhoeddi:	<b>16 Rhagfyr 2021</b>
Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben (3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi):	21 Rhagfyr 2021
Penderfyniad yn dod i rym:	22 Rhagfyr 2021